# Tysilio, 7fed ganrif
## Sant

Yn ystod cyfnod Tysilio a'i gyd-seintiau eraill, fel Teilo, Dewi, Cadfan, Cybi a Beuno, yr oedd dwy frwydr bwysig yn cael eu hymladd. Y gyntaf oedd brwydr y Brythoniaid a oedd yn ymladd am eu heinioes yn erbyn dyfodiad y Sacsoniaid; (oes arwrol y Brutaniaid ac oes Emrys Wledig ac Arthur oedd hon). Yr ail oedd brwydr Cristnogaeth Geltaidd i sicrhau'r hawl i fodoli ochr yn ochr â Christnogaeth Rufeinig Gorllewin Ewrop.

Hanai Tysilio o linach teulu brenhinol Powys, a'i dad oedd Bochwel Ysgrithrog, tywysog Powys. Mae'n drawiadol bod cynifer o'r saint cenhadol hyn yn deillio o deuluoedd breiniol. Daeth Tysilio o dan ddylanwad Gwyddfach Sant, gŵr yr oedd canolbwynt ei weithgaredd Cristnogol ym Meifod, Trefaldwyn, nid nepell o un o gartrefi'r tywysog Bochwel. Yr oedd Meifod o fewn dalgylch mynachlog Bangor Is-coed a sefydlwyd gan Deiniol Sant ac a oedd yn ganolfan Gristnogol i ogledd-ddwyrain Cymru. Yr oedd gan Deiniol ganolfan arall hefyd, ym Mangor Fawr yn Arfon.

Pan oedd yn ifanc, prif ddyhead Tysilio oedd cael bod yn fynach a byw bywyd crefyddol, ond nid oedd hyn yn plesio'i dad am ei fod yn dymuno i'w fab fod yn etifedd ac yn olynydd iddo. Ceir cyfeiriadau yn aml yn hen hanesion y seintiau at y gwrthdaro rhwng y tywysogion a'r arweinyddion Cristnogol. Yn wir, ceisiodd tad Tysilio bob ffordd i'w atal rhag dod o dan ddylanwad Gwyddfach, ond er pob cyngor i'r gwrthwyneb aeth i Feifod gan ymuno â'r brodyr oedd yno. Datblygodd Meifod yn ganolfan Gristnogol o bwys, a hi oedd cysegrfa bwysicaf Powys am gyfnod o chwe chan mlynedd hyd ddyfodiad mynachlog Glyn-y-groes, Llangollen, a adeiladwyd gan y Brodyr Gwynion yn y ddeuddegfed ganrif.

Aeth Tysilio ati i sefydlu eglwysi o fewn tiriogaeth ei dad. Yr oedd gan dywysog Powys ddau lys: un ym Mathrafal yn ne'r dywysogaeth a'r llall yng nghastell Dinas Brân, Llangollen. Nid rhyfedd felly fod Tysilio wedi sefydlu achos yng nghyffiniau

Llangollen lle y mae eglwys Llandysilio. Sefydlodd achos hefyd yr ochr arall i'r mynydd ym Mryneglwys. Yr oedd dylanwad Tysilio yn fawr yn yr ardal hon.

Pan fu Bochwel farw daeth ei fab arall Cynan yn olynydd iddo. Ar farwolaeth Cynan daeth ei fab yntau, Selyf ap Cynan, i lywodraethu ond lladdwyd ef ym mrwydr Caer yn 613. Bellach, Tysilio oedd aelod hynaf y teulu a gofynnwyd iddo a fyddai'n llywodraethu hyd nes i olynydd dyfu'n ddigon hen i gyflawni'r gwaith. Gwrthododd, a bu rhaid iddo ffoi o Bowys oherwydd ei amhoblogrwydd. Aeth i Ynys Môn gan sefydlu eglwys Llandysilio ar ynys fechan yn afon Menai ger Porthaethwy. Y mae hi bellach yng nghysgod 'yr uchelgaer', Pont y Borth. Yno cafodd heddwch a thawelwch i fyfyrio a gweddïo ac i ymroi yn llwyr i fywyd crefyddol. Bu ar deithiau yn y cyfnod hwn ac aeth i genhadu i dde Cymru. Y mae eglwysi wedi eu cysegru iddo ar arfordir de sir Aberteifi ac ar ffiniau siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Yr oedd hi'n llawer haws teithio ar y môr nag ar y tir yn y dyddiau hynny; dyna pam y ceir eglwysi wedi eu cysegru i'r saint hyn yn fynych ar yr arfordiroedd.